# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 - Adran F

## Cwestiynau llafar a gyflwynwyd ar 9 Ionawr 2001 i'w hateb ar

## 23 Ionawr 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i ofyn yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog y Cynulliad:

**1.Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff roi adroddiad ar ei fecanweithiau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau am faterion trawsbynciol. (OAQ8993)

**2.Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff roi datganiad ar y camau sydd wedi'u cymryd i roi'r rhaglen *Rhoi Cymru'n Gyntaf* ar waith. (OAQ8974)

**3.Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio er lles pob rhan o Gymru. (OAQ8976)

**4.Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff adrodd ar y protocol drafft rhwng y Cynulliad a Swyddfa Cymru. (OAQ8992)

**5.Brian Hancock (Islwyn);** Pa gynlluniau sydd gan Brif Weinidog Cymru I godi proffil Cymru trwy ddatblygiadau polisi o fewn y Deyrnas Unedig. (OAQ8987)

**6.Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Yn rhinwedd eich rôl fel cydlynydd polisi ar gyfer y Gogledd, a wnewch ddatganiad ar unrhyw gynlluniau i gwrdd ag arweinwyr cynghorau'r Gogledd. (OAQ8998)

**7.Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r diweddaraf am y trefniadau sy'n cael eu hystyried i wneud yr ohebiaeth rhwng ei Gabinet a Swyddfa Cymru yn hysbys i'r cyhoedd. (OAQ8991)

**8.Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad byr ar y datblygiadau sy'n effeithio ar Gymru o

ganlyniad i drafodaethau Cyngor Gweinidogion yr UE. (OAQ8983)**TYNNWYD YN OL**

**9.William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ba mor barod y mae'r Cynulliad Cenedlaethol i ymateb i newid mawr sy'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd cymuned o fewn ardal o Gymru. (OAQ8979)

**10.Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar gyfraniad Cymru at ddatblygu polisi ar newid hinsoddol ar lefel Ewropeaidd. (OAQ8986)

**11.Alison Halford (Delyn);** Yn rhinwedd ei rôl fel cydlynydd polisi ar gyfer y Gogledd, pa gamau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod polisïau i ddenu mewnfuddsoddiant yn cael eu cefnogi gan fesurau i wella'r isadeiledd trafnidiaeth a thechnolegol lleol. (OAQ8982)

**12.Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i sefydlu'r mesur hawliau dinasyddiaeth y cyfeirir ato yn Rhoi Cymru'n Gyntaf. (OAQ8995)

**13.Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'i gyd-weinidogion yn San Steffan ynghylch goblygiadau posibl yr ewro ar Gymru pan ddaw'n weithredol yn 2002. (OAQ8980)

**14.Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** Sut bydd y Cynulliad yn hybu dealltwriaeth y cyhoedd o ddatblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol. (OAQ8989)

**15.Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ei gyfrifoldebau am gydlynu polisïau ar gyfer Gogledd Cymru. (OAQ8999)

**16.Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am ei drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU am leddfu effeithiau negyddol gwerth uchel y bunt sterling yng Nghymru. (OAQ8978)

**17.Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A oes gan y Prif Weinidog gynlluniau i wneud Cabinet y Cynulliad yn fwy tryloyw. (OAQ8990)**TYNNWYD YN OL**

**18.Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff ddatganiad ar y broses i gynnwys aelodau ei Gabinet yn nirprwyaeth y DU yng nghyfarfodydd Cyngor Gweinidogion yr UE. (OAQ8985)
**TYNNWYD YN OL**

**19.Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Yn rhinwedd ei rôl fel cyd-lynydd datblygu polisi beth mae'n ei wneud i hyrwyddo cyfranogiad cymunedau yn natblygiad cymdeithasol, economaidd a chelfyddydol Cymru. (OAQ8981)

**20.Geraint Davies (Rhondda);** A wnaiff ddatganiad byr ar y modd y mae Cabinet y Cynulliad a San Steffan yn ymgynghori ar bolisi. (OAQ8988)**TYNNWYD YN OL**

**21.Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf i farchnata ac ail-ddelweddu Cymru. (OAQ8972)

**22.Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff ddatganiad ar ei gyfarfod diwethaf gyda'r CBI ynghylch Partneriaeth gyda Busnes. (OAQ8994)**TYNNWYD YN OL**

**23.Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Cyngor Prydeinig i sicrhau y rhoddir pwyslais digonol i Gymru yng ngweithgareddau'r Cyngor Prydeinig ledled y byd. (OAQ8996)**TYNNWYD YN OL**

**24.John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Phen Weinidog newydd yr Alban ynghylch datblygu polisïau sy'n berthnasol i'n dwy wlad. (OAQ8977)

**25.David Melding (Canol De Cymru);** A yw'r rhaglen *Rhoi Cymru'n Gyntaf* wedi disodli *gwellcymru.com* fel fframwaith polisi'r Cabinet. (OAQ8975)**TYNNWYD YN OL**

**26.Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ei gynlluniau i sefydlu Comisiwn Annibynnol i ymchwilio i bwerau a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ8997)**TYNNWYD YN OL**

**27.Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad ar ymateb ei Lywodaeth i'r argymhellion ar gyfer diwygio'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd. (OAQ8984)**TYNNWYD YN OL**

**28.Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Paul Murphy, ynghylch Dydd Gwyl Dewi Sant. (OAQ8973)